

## **Bwletin yr Awdurdod - Awst 2003**

Mae'r isod yn crynhoi'r prif bwyntiau a godwyd yn ystod trafodaethau Awdurdod S4C yn ystod ei gyfarfod ddydd Gwener, 25 Gorffennaf 2003.

### **Y Berthynas rhwng Awdurdod S4C ac OFCOM**

Nodwyd bod y Mesur Cyfathrebu wedi cwblhau ei daith drwy'r Senedd ac felly bellach yn Ddeddf. Nodwyd o ran OFCOM, bod y ddeddf yn sefydlu pwyllgor ymgynghorol yng Nghymru. Byddai angen i'r Awdurdod ystyried ei berthynas gyda'r pwyllgor ymgynghorol hwn.

### **Y Sioe Frenhinol Amaethyddol**

Adroddodd y Cadeirydd bod S4C wedi cynnal cyfarfod brechwast ar ddydd Mawrth y Sioe. Roedd hwn yn ddechreuad ar y broses ymgynghori ar gyfer yr adolygiad mewnol a bu nifer o gyrff oedd yn cynrychioli gwahanol agweddau o fywyd cefn gwlad Cymru yn bresennol. Bu'n gyfarfod arbennig o dda gyda nifer o sylwadau a syniadau wedi eu cynnig.

Cynhaliwyd amser cinio ar yr un diwrnod derbyniad arbennig o lwyddiannus gyda rhyw 220 o bobl yn bresennol yn hytrach na'r 150 a ddisgwyliwyd. Roedd yna awyrgylch hapus a chynnes iawn adeg y cinio pan fynegwyd gwerthfawrogiad o'r hyn a ystyriwyd i fod yn wasanaeth da iawn o safon uchel oedd yn cael ei gynnig gan S4C o'r Sioe.

### **Yr Eisteddfod Genedlaethol**

Tynnwyd sylw'r Aelodau at y ffaith y byddai, yn ogystal â'r gweithgareddau arferol, cyfarfod cyhoeddus ar y thema 'Ble Nesa' i S4C yn cael ei gynnal ar y Maes adeg wythnos yr Eisteddfod.

### **Richard Hooper, Cadeirydd Bwrdd Cynnwys OFCOM**

Nodwyd bod yna drefniant i Richard Hooper ddod i S4C am gyfarfod gyda'r Cadeirydd ar 20 Awst. Fe fyddai Sue Balsom, yr Aelod dros Gymru, hefyd yn bresennol.

### **Arglwydd McIntosh, Gweinidog y DCMS dros Ddarlledu**

Nodwyd y byddai'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn cael cyfarfod gyda'r Arglwydd McIntosh ar 9 Medi yn Llundain.

## **Bwrdd yr Iaith**

Nodwyd y byddai'r Cadeirydd, y Prif Weithredwr a'r Ysgrifennydd yn cyfarfod gyda Chadeirydd a Phrif Weithredwr Bwrdd yr Iaith Gymraeg ym mis Medi fel rhan o'r gyfres o gyfarfodydd ymgynghorol yn ymwneud â'r adolygiad.

## **Aelodaeth yr Awdurdod**

Nodwyd bod yna hysbyseb wedi ymddangos yn y wasg a hefyd sylw ar wasanaeth S4C yn tynnu sylw ddymuniad y DCMS i benodi Aelod newydd i'r Awdurdod. Cadarnhawyd y byddai cyfnod estynedig Huw Wynne-Griffith ar yr Awdurdod yn dod i ben ym mis Medi ond roedd yn annhebygol y byddai Aelod newydd mewn lle cyn mis Tachwedd

## **Penodiad Cyfarwyddwr Rhaglenni**

Nodwyd bod Iona Jones wedi'i phenodi i'r swydd Cyfarwyddwr Rhaglenni. Fe fyddai yn cychwyn yn y swydd ar 1 Medi ac edrychwyd ymlaen at ei chroesawu'n ôl i S4C. Bu'r Prif Weithredwr a'r Cadeirydd yn cyfweld ac adroddwyd bod yna gyflwyniadau da iawn wedi'u rhoi yn ystod y broses gydag ymgeiswyr yn amlwg wedi paratoi'n ofalus iawn ac wedi meddwl yn ddwys am y gwasanaeth. Bu'r broses gyfweld yn un galonogol iawn.

## **Perthynas S4C â'i Chynhyrchwyr**

Ystyriwyd dogfen oedd yn gosod allan y polisi arfaethedig ar gyfer perthynas S4C gyda'i chynhyrchwyr. Nodwyd taw'r bwriad oedd y byddai'r ddogfen hon yn cael ei chyplysu gyda dogfen oedd yn amlinellu polisi S4C mewn perthynas â'r hawliau roedd y Sianel am eu prynu gan gynhyrchwyr annibynnol a materion perthnasol. Roedd yna reidrydd i S4C gynhyrchu'r ail o'r dogfennau hyn i gydymffurfio â gofynion ITC/OFCOM. Cytunwyd y dylid cymeradwyo'r ddogfen ar yr amod bod ystyriaeth yn cael ei roi i'r ffurf yr oedd yn cael ei gyflwyno.

## **Cerdyn Solus Sky**

Nodwyd y goblygiadau yn deillio o benderfyniad y BBC i beidio â pharhau i dalu am gardiau 'solus' Sky a'r ffaith fod Sky yn anfon cardiau newydd allan i bob tanysgrifiwr ym Mhrydain.

## **Adolygiad S4C**

### **(a) Cyflwyniad gan Dr Jeremy Evas, Pennaeth Ymchwil Bwrdd yr Iaith –**

Croesawyd Dr Jeremy Evas i gyfarfod yr Awdurdod a diolchwyd iddo am gytuno i roi cyflwyniad i'r Aelodau ar ei gasgliadau o ymchwil Bwrdd yr Iaith ar ganlyniadau y Cyfrifiad 2001 parthed sefyllfa'r iaith Gymraeg. Yn dilyn y cyflwyniad cynhaliodd yr Aelodau drafodaeth ar y materion a dynnwyd sylw atynt. Gwelwyd y drafodaeth hon fel cychwyn taith ac roedd y Sianel yn awyddus i'r berthynas gyda Bwrdd yr Iaith, lle'r oedd y ddau gorff yn o rannu gwybodaeth barhau. Diolchwyd unwaith eto i Dr Evas am gymryd amser i drafod y pwnc yma gyda'r Awdurdod.

### **(b) Cylch Gorchwyl i'r Adolygiad Allanol**

Trafodwyd papur gan yr Ysgrifennydd oedd yn cyflwyno drafft cychwynnol o gylch gorchwyl ar gyfer adolygiad allanol.

## **Monitro Cynllun Corfforaethol 2003-05**

Ystyriwyd yr adroddiad oedd yn monitro cynnydd yn erbyn y targedau yng Nghynllun Corfforaethol 2003-05. Roedd y mwyafrif helaeth o'r targedau yn cael eu cwrdd ar hyn o bryd.

## **Canllawiau ITC/OFCOM ar Gomisiynu Oddi Wrth Gynhyrchwyr Annibynnol**

Ystyriwyd papur yr Ysgrifennydd a chydabuwyd mai mater i'w nodi oedd hwn ar hyn o bryd. Er y byddai swyddogion S4C yn gyrru fersiwn drafft o'r côd gweithredu yn syth at yr ITC erbyn diwedd mis Gorffennaf, fe fyddai yna gyfle i'r Aelodau gynnig sylwadau adeg yr hydref. Yn ôl gofynion statudol, byddai'n rhaid i S4C gyhoeddi'r côd gweithredu erbyn mis Rhagfyr.

## **Cyflwyniad gan y Comisiynydd Rhaglenni Adloniant Ysgafn**

Derbyniodd yr Aelodau gyflwyniad gan Huw Chiswell, y Comisiynydd Rhaglenni Adloniant Ysgafn. Yn ystod ei gyflwyniad cyfeiriodd y Comisiynydd yn ôl at raglenni wedi'u darlledu dros y flwyddyn a gwelwyd nifer o gliopiau yn adlewyrchu'r arlwy a fu. Yna aethpwyd ymlaen i sôn am y rhaglenni oedd ar y gweill ac yn dal i gael eu datblygu a rhoddwyd blas o'r rhaglenni a fyddai o bosibl yn ymddangos ar y sgrîn yn 2004.

Yn y drafodaeth a ddilynodd soniodd yr Aelodau bod yr hyn a welwyd yn argoeli'n dda ar gyfer y flwyddyn nesaf. Teimlwyd bod yna fwrlwm ac egni i'r deunydd newydd. Nodwyd na ddylid ei gymryd yn ganiataol y byddai pob un o'r peilots roedd yr Aelodau newydd weld clipiau ohonynt yn mynd i gael eu darlledu.

## **Materion Eraill**

Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad y Prif Weithredwr – Materion er gwybodaeth
- Adroddiad Cwynion
- Cofnodion cyfarfod y Grwp Cydymffurfiaeth a gynhaliwyd 11 Gorffennaf 2003
- Adroddiad Gwifren Gwylwyr
- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiad y Cyfarwyddwr Rhaglenni
- Adroddiad Ariannol